TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

National Centre for Social Research

## Cwestiynau cyffredin

**Beth yw Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru?**
Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (ATCC) yn arolwg blynyddol parhaus sydd â'r nod o'n helpu i ddeall sut mae pobl yn defnyddio ac yn profi trafnidiaeth ledled Cymru. Gwahoddir tua 15,000 o gartrefi i gymryd rhan yn flynyddol, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan TrC.

**Pwy yw'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen)?**
NatCen yw asiantaeth ymchwil cymdeithasol annibynnol fwyaf Prydain. Am fwy na 50 mlynedd, maen nhw wedi gweithio gydag elusennau, y llywodraeth a sefydliadau academaidd. Maen nhw'n annibynnol ar holl adrannau'r llywodraeth a phob plaid wleidyddol.

**Pam mae'r astudiaeth yn bwysig?**
Yr Arolwg Teithio Cenedlaethol yw eich cyfle i ddweud wrthym am eich profiadau, eich barn a'ch defnydd o wasanaethau trafnidiaeth yng Nghymru. Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad am fod angen i ni glywed gan bobl o wahanol ryweddau, oedrannau a chefndiroedd, sy'n byw ymhob rhan o Gymru.

**Pam ddylwn i gymryd rhan?**
Chi sy'n dewis a ydych eisiau cymryd rhan ai peidio, ond bydd eich atebion yn ein helpu ni i ddeall a gweithredu ar bethau sy'n bwysig i chi. Bydd yr arolwg yn cymryd tua 40 munud a byddwch yn derbyn taleb £10 Love2Shop i ddiolch i chi.

**Sut gawsoch chi fy manylion cyswllt?**
Cafodd eich cyfeiriad ei ddewis ar hap o'r rhestr o'r holl gyfeiriadau yng Nghymru sydd ar gael i'r cyhoedd gan y Post Brenhinol.

**A fydda i'n gallu cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg?**
Byddwch. Gallwch wneud yr arolwg hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**A fydd fy atebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol?**
Byddant. Bydd y wybodaeth a rowch i ni'n cael ei chadw'n gyfrinachol ac yn cael ei defnyddio dim ond at ddibenion ymchwil. Gallwch weld rhagor o fanylion am y ffordd yr ydym yn storio a phrosesu eich gwybodaeth ar ein gwefan.
**https://trc.cymru/prosiectau/arolwg-teithio-cenedlaethol-cymru**

**Beth os oes gen i gwestiynau eraill?**
Gallwch gysylltu â NatCen yn: **WNTS@natcen.ac.uk** neu **0800 652 9296**
Neu cysylltwch â Trafnidiaeth Cymru'n uniongyrchol ar: **arolwgteithio@trc.cymru** neu **03333 211 202**

I ofyn am y wybodaeth hon mewn print mawr neu Braille, neu os oes ffordd y gallwn ei wneud yn haws i chi gymryd rhan, ffoniwch ni ar 0800 652 9296